

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 14 Gorffennaf 2014 am 7.30yh
yn Hen Ysgol y Ferwig.

Presennol:

Cyng. Des Davies (*Cadeirydd*)

Cyng. Morris Davies

Cyng. Islwyn Iago

Cyng. Haydn Lewis (*aelod lleol y Cyngor Sir*)

Cyng. Auriol Williams (*Cyn-Gadeirydd*)

Cyng. Dilwyn Jenkins

Cyng. Eurig Lloyd

Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Des Davies, bawb i gyfarfod mis Gorffennaf.

1(a) **Penodi Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2014-15:** Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Islwyn Iago bod y Cyng. Lyn Jones yn cael ei enwebu yn Is-Gadeirydd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Huw Jones, Ann Stokoe, Lyn Jones, Llinos Price.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Morris Davies bod cofnodion mis Mehefin yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Dim.

5. **Materion yn codi:**

Gwefan y Cyngor: Yn dilyn y cyfarfod gynhaliwyd 17 Mehefin, derbyniwyd pris oddi wrth Mrs Cerys Jones am gyfieithu'r deunydd i'r wefan. Mae Cerys wedi cyflawni'r gwaith.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Urdd Gobaith Cymru Dim

Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr) Dim

Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd) Dim

Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen Dim

Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion £100

Gofal Mewn Galar £30

NSPCC £30

Victim Support £30

Radio Beca I'w drafod ym mis Hydref 2014

Y Gambo £50

Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig £500

Prism Dim

Ceredigion Age Cymru £50

Gŵyl Fawr Aberteifi £150

Traws Link Cymru I'w drafod ym mis Hydref 2014

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

7. **Cynllunio:**

<i>Rhif y cais.</i>	<i>Cyfeiriad a bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor</i>
A140403	Cefnfor, Gwbert "Change of use of agricultural land to residential curtilage and extension to property".	Nid oes gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cynlluniau, ond mae'r aelodau yn pryderu bod y tanc septig wedi ei leoli tu allan i'r ffiniau.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A140173	Greenfields, Penyparc: "Variation of condition 2 of planning permission A080432 (amended design)"	Wedi ei ganiatáu.

8. Materion Ariannol.

Biliau wedi eu talu:

Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mehefin 2014)	101367	£74.00
Cyflog y Clerc (Mehefin 2014)	101368	£296.96
Costau'r Clerc (Mehefin 2014)	101369	£52.24
Printerinks drwy law'r Clerc (cetrysau i'r argraffydd)	101370	£36.74
SWALEC (Trydan Cae Gwyrdd)	101371	£21.75
SWALEC (Trydan Ystafelloedd Newid Ystafell Berkley)	101372	£19.85
Playsafety Ltd (Archwiliad cyfarpar y meysydd chwarae)	101373	£163.20
Cerys Jones Cyf (Cyfieithiad ar gyfer gwefan y Cyngor)	101374	£86.10
John Morris (Torri porfa cyffredinol am chwe mis)	101375	£460.80
John Morris (Trasio'r llwybrau)	101375	£844.80

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Islwyn Iago bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill:

Cyflwyniad o Adran 3 o'r Ffurflen Flynyddol (Cyngorau Lleol Cymru) ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014 ac Adroddiad yr Archwilydd Allanol, BDO LLP, Southampton

Ardystiodd y clerc bod y datganiadau ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y Ffurflen Flynyddol yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol y cyngor ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

Cadarnhaodd y Cadeirydd, y Cyng. Des Davies, fod y datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu blynyddol wedi'u cymeradwyo gan y cyngor o dan gyfeirnod cofnodion y cyngor 14/7/14, eitem 8, tudalen 761

Arwyddwyd Adran 3 (Ardystio a chymeradwyo) gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'r Cadeirydd.

Cynigiwyd bod y cyngor yn derbyn yr uchod gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd.

9. Gohebiaeth:

49	Mark Williams AS	Copi o lythyr anfonwyd i Carwyn Jones yn datgan pryder aelodau Cyngor y Ferwig ynglŷn â cherddwyr a beicwyr yn defnyddio clustffonau ayyb.	Nodwyd
50	Un Llais Cymru	Agenda Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol i'w cynnal 25 Gorffennaf yn Neuadd y Sir, Penmorfa a hefyd cofnodion y cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion a gynhaliwyd ar 30 Ebrill.	Nodwyd
51	Bwrdd Iechyd Hywel Dda	Gwahoddiad i ddau aelod o'r Cyngor fynychu cyfarfod yn ymwneud â gwahanol adrannau yn ysbytai Llwynhelyg a Glangwili ym mis Gorffennaf.	Nodwyd
52	Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan	Gwahoddiad i'r Cadeirydd + 1 fynychu Gorymdaith Dinesig a Gwasanaeth i gofio canmlwyddiant Ymadawiad yr Iwmoniaeth o Lanbedr Pont Steffan ar ddydd Sul, 10 Awst	Nid oedd aelod ar gael i fynychu'r digwyddiad.
53	Yr Ombwdsmon	Adroddiad Blynyddol 2013/14.	Mae copi ar gael gan y Clerc.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

54	Llywodraeth Cymru	Ymateb i lythyr y Cyngor dyddiedig 16/6/14 yn datgan pryder ynghylch cynlluniau Bwrdd Iechyd Hywel Dda am wasanaethau cardiaidd yn Ysbyty Bronglais.	Nodwyd
55	Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaethau Datgblygu Economaidd a Chymunedol)	Ymateb i lythyr at Wendy Champion: (a) Llwybr arfordirol Heolgwyddil Fach – postyn iet i'w drwsio; i'w ddelio gyda Mr Nigel Nicholas. (b) Llwybr o Olygfan Gwbert i Westy'r Gwbert: Mae canllawiau'r Cyngor Sir yn dweud y caiff y llwybr ei dorri ym mis Mehefin a Gorffennaf/Awst.	Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i ddelio â'r materion hyn.
56	Mr Lyn Jenkins, Clynyrynys.	Cyfres o e-byst yn cyfeirio at ddatgyfeirio llwybr 73/63/D.	Mae'r e-byst wedi eu hanfon ymlaen at yr holl gynghorwyr.
57	Gŵyl Fawr Aberteifi	Llythyr o ddiolch i'r Cyngor am nodd i'r Wyl Fawr a dau docyn i'r Gyngerdd nos Sul Gorffennaf 6.	Cynnig am docynnau wedi ei drosglwyddo ar e-bost i'r aelodau 30/6/14.
58	Cyngor Sir Ceredigion (Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth)	Rhybudd cau'r ffordd o Nantferwig i'r Clwb Cychod B4548. Gweler hefyd ebost oddi wrth Evan Pugh, Rheolwr peirianeg y cyngor sir gyda'r rhesymau am gau'r ffordd.	Gwybodaeth wedi ei drosglwyddo i'r aelodau ar 4/7/14.
59	Cyngor Sir Ceredigion (Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth)	Rhybudd cau'r ffordd B4570 Llangoedmor o'r 17 hyd 21 Gorffennaf.	Nodwyd
60	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth Cefnogi Polisi)	Casglu gwybodaeth ar weithgareddau yn yr ardal.	Clerc i anfon copi o'r ddogfen at y Cyng. Auriol Williams
61	Playsafety	Gwybodaeth yn dilyn archwiliad gan ROSPA ar Chwaraefannau'r Ferwig a Chae Gwyrdd, Penyparc.	Nodwyd
62	Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol)	Ymgynghori ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol, Drafft Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion. Gweler y manylion ar www.ceredigion.gov.uk/ldp	Mae'r holl ddogfenni ar gael gan y Clerc
63	BDO (Archwilydd Allanol)	Cadarnhad nad oes materion i'w trafod ynglŷn â chyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014.	Y Clerc i ddychwelyd y Ffurflen Flynyddol i'r Archwilydd Allanol

10. Materion Eraill:

- (a) **Traeth yr Ogof Goch:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â gordyfiant ar y llwybr i lawr at draeth yr Ogof Goch.
- (b) **Bin Sbwriel i'w leoli yng Ngolygfan y Gwbert:** Penderfynwyd peidio lleoli bin yn yr olygfan am y tro.
- (c) **Gordyfiant yn y Gymuned:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â chloddiau wedi gordyfu yn y gymuned. Dywedodd y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y broblem yn mynd yn erbyn rheolau iechyd a diogelwch gan fod perygl i gerddwyr a beicwyr.
- (d) **Gordyfiant ar y llwybr o Fferm y Graig tuag at Tygwyn, Mwnt:** Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.
- (e) **Pont-droed ar y llwybr rhwng Rocklands a Llwynllwyd:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â swyddog y Cyngor Sir ynglŷn â chyflwr y bont-droed.
- (f) **Arwydd llwybr ceffyl yn ymyl cronfa ddŵr Tremain:** Y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir droi'r arwydd i'r cyfeiriad cywir.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (g) **Pen hewl Cwmarch:** Y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir gywiro'r arwydd.
- (h) **Bag sbwriel wedi ei adael ym Mhenygarn:** Y Clerc i adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir.
- (i) **Golau tu allan i Blaencathra, Heol Tywod, Penyparc:** Y Clerc i achwyn i'r Cyngor Sir bod y golau ynghynn yn gyson.
- (j) **Teclynnau adlewyrchol:** Derbyniwyd addewid gan Mr Gary Griffiths, Cyngor Sir Ceredigion, bod 35 o declynnau adlewyrchol oddi wrth yr adran Briffyrdd wedi eu clustnodi i'w gosod ar y pyst yn ymyl y ffordd o Olygfan Gwbert i Westy'r Gwbert ar yr amod bod Cyngor Cymuned y Ferwig yn eu gosod.

11. Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol nesaf y Cyngor: 1 September 2014 yn Ystafell Berkley am 7.30yh.

Cyfarfodydd y Cyngor am 2014

6 Hydref (F) 3 Tachwedd (YB) 1 Rhagfyr (F)
2015: 5 Ionawr (YB) 2 Chwefror (F) 2 Mawrth (YB) 13 Ebrill (F) 11 Mai (YB) (CB)
1 Mehefin (F) 6 Gorffennaf (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynnyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 14 July 2014 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

Present

Cllr Des Davies (*Chairperson*)

Cllr Morris Davies

Cllr Islwyn Iago

Cllr Haydn Lewis (*Local Member of CCC*)

Cllr Auriol Williams (*Past Chairman*)

Cllr Dilwyn Jenkins

Cllr Eurig Lloyd

Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

1. Chairperson's welcome. The Chairperson, Cllr Des Davies, welcomed everyone to the July meeting.

1(a) Appoint a Vice Chairperson for the year 2014-15: It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Islwyn Iago that Cllr Lyn Jones be appointed as Vice Chairman.

2. Apologies for absence: Cllrs Huw Jones, Ann Stokoe, Lyn Jones, Llinos Price.

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Morris Davies that the minutes for the June meeting are correct.

4. Declaration of personal interests:

5. Matters arising:

Council Website: Following a meeting held on 17 June, a quote was received from Mrs Cerys Jones for translating various items for the website. Cerys has now completed the work.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Urdd Gobaith Cymru	Nil
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr)	Nil
Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd)	Nil
Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen	Nil
Ceredigion Young Farmers' Club	£100
Cruse Bereravement Support	£30
NSPCC	£30
Victim Support	£30
Radio Beca	To be discussed in October 2014
Y Gambo	£50
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	£500
Prism	Nil
Ceredigion Age Cymru	£50
<i>Gŵyl Fawr Aberteifi</i>	£150
Traws Link Cymru	To be discussed in October 2014

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

7. Planning:

<i>Application no.</i>	<i>Address and purpose</i>	<i>Sylwadau</i>
A140403	Cefnfor, Gwbert "Change of use of agricultural land to residential curtilage and extension to property".	Council has no objections to plans, but members are concerned that the proposed septic tank is outside the curtilage.

Other Planning Matters:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council decision</i>
A140173	Greenfields, Penyparc: "Variation of condition 2 of planning permission A080432 (amended design)"	Application granted.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Financial Matters.

Bills paid:

HMRC: Clerk's Income Tax (June 2014)	101367	£74.00
Clerk's Salary (June 2014)	101368	£296.96
Clerk's Expenses (June 2014)	101369	£52.24
Printerinks via the Clerk (cartridges for printer)	101370	£36.74
SWALEC (Electricity Cae Gwyrdd)	101371	£21.75
SWALEC (Electricity for Changing Rooms, Ystafell Berkley)	101372	£19.85
Playsafety Ltd (Inspection of Playareas)	101373	£163.20
Cerys Jones Cyf (Translation for website)	101374	£86.10
John Morris (General grass-cutting for six months)	101375	£460.80
John Morris (Path trashing)	101375	£844.80

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Islwyn Iago that the above bills be paid.

Other Financial Matters:

Presentation of Section 3 of the Local Councils in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2014 and the External Auditor Report, BDO LLP, Southampton.

BDO has confirmed in writing that it is their intention to issue an unqualified certificate and report and there are no other matters which they wish to draw to the attention of the Council.

The clerk certified that the accounting statements contained in the Annual Return presents fairly the financial position of the council and its income and expenditure for the year ended 31 March 2014.

The Chairman, Cllr Des Davies, confirmed that the accounting statements and Annual Governance Statement were approved by the council under council minute reference 14/7/14 item 8, page 761.

Section 3 (Certification and approval) was duly signed by the Responsible Financial Officer and Chairman.

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the Council accepts and approves Section 3 of the Annual Return.

9. Correspondence:

49	Mark Williams MP	Copy of a letter forwarded to Carwyn Jones AM regarding the use of MP3's, ipods and other earphone devices by pedestrians and cyclists while travelling the highways	Noted
50	One Voice Wales	Agenda for AGM and Ordinary meeting held on 25 July at the County Hall, Penmorfa and also the minutes for the Ceredigion Area Committee meeting that was held on the 30 April.	Noted
51	Hywel Dda Health Board	Invitation for two members of the Council to attend a meeting regarding various changes to services at Withbush and Glangwili Hospitals.	There were no Councillors available to attend this meeting.
52	Lampeter Town Council	Invitation for the Chairman + 1 to attend a Civic Procession & Service to Commemorate the Centenary of the Departure of the Yeomanry from Lampeter, 10/8/14	The Chairman is unable to attend.
53	Ombudsman	Annual Report 2013/14.	Copy available from the Clerk.
54	Welsh Government	Response to the Council's letter dated 16/6/14 regarding Hywel Dda Health Board's plans for the cardiac services at Bronglais Hospital.	Noted

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

55	Ceredigion County Council (Economic and Community Development Services)	Response to correspondence forwarded to Wendy Campion. (a) Coastal Path Heolgwyddil Fach – regarding damaged gatepost. This will be dealt with by Area Ranger Mr Nigel Nicholas. (b) Footpath from Gwbert Viewpoint to the Gwbert Hotel. Ceredigion County Council have confirmed that this is cut in June and July/August. The County Council now confirm that from next year, this will be cut three times a year.	Noted
56	Mr Lyn Jenkins, Clynyrynys.	Various e-mails regarding diversion of path number 73/63/D.	Copies of e-mails forwarded to all Council members.
57	Gŵyl Fawr Aberteifi	Letter of thanks to the Council for sponsoring the Gŵyl Fawr and two complimentary tickets for the Concert held on Sunday 6 July.	Offer of these tickets was transferred by e-mail to all members on 30/6/14.
58	Ceredigion County Council (Head of Asset and Transportation Services).	Warning of closure of road B4548 from Nantferwig to the Boat Club. See also e-mail received from Evan Pugh,, Ceredigion County Council stating reasons for the road closure.	All Council members notified by e-mail on 4/7/14.
59	Ceredigion County Council (Head of Asset and Transportation Services).	Warning of road closure B4570 Llangoedmor from the 17 to 21 July.	Noted
60	Ceredigion Council Council (Head of Policy Support)	Gathering information on activities in the Community.	Clerk to forward copy to Cllr Auriol Williams.
61	Playsafety	Information following inspections by ROSPA of Ferwig Playarea and Cae Gwyrdd Penyparc.	Noted
62	Ceredigion County Council (Head of Economic and Community Development Services)	Ceredigion LDP Draft Supplementary Planning Guidance (SPG Consultation: See details on Council's website www.ceredigion.gov.uk/ldp	All documents available with the Clerk.
63	BDO (External Auditors)	Confirmation that there are no outstanding issues to discuss regarding the accounts for the year ending 31 Mawrth 2014.	

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Other Matters:

- (a) **Morgan's Beach:** The Clerk was asked to contact the County Council regarding overgrowth on the path down to Morgan's Beach.
- (b) **Rubbish Bin to be placed at Gwbert Viewpoint:** It was decided not to place a bin at this location for the time being.
- (c) **Overgrown hedges and verges in the community:** The Clerk was asked to contact the County Council regarding the problem of overgrowth in the community. Cllr Dilwyn Jenkins stated that this problem is now a health & safety issue as walkers and bikers are placed at risk.
- (d) **Overgrowth on the path from Fferm y Graig towards Tygwyn.** The Clerk to contact the County Council.
- (e) **Footbridge on the path between Rocklands and Llwynllwyd:** The Clerk was asked to contact the County Council to report that this footbridge needs urgent repairs.
- (f) **Bridlepath sign near the reservoir at Tremain:** The Clerk to request that the County Council turns this sign to point in the right direction.
- (g) **Cwmarch, Penyparc:** The Clerk to request that the County Council repair the damaged bridleway sign at this location.
- (h) **Rubbish bag left at Penygarn lay-by:** The Clerk to report this to the County Council.
- (i) **Street light outside Blaencathra, Heol Tywod, Penyparc:** The Clerk to notify the County Council that this light is constantly lit.
- (j) **Reflective Signs:** Mr Gary Griffiths, Ceredigion County Council stated that 35 reflective signs from the Highways Department have been earmarked to be placed on the posts from Gwbert Viewpoint to the Gwbert Hotel on the condition that the Community Council meets the cost of placing them on the posts.

11. Date of the next Ordinary Meeting of the Council: 1 September 2014 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Council Meetings in 2014

	6 October (F)	3 November (YB)	1 December (F)		
2015:	5 January (YB)	2 February (F)	2 March (YB)	13 April (F)	11 May (YB) (AGM)
		1 June (F)	6 July (YB)		

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting